

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Gwariant ar y Cyfleustodau Expenditure on Utilities

Q10 Mick Bates: Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government expenditure on utilities? OAQ0514(FIN)

C10 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyfleustodau? OAQ0514(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): The Welsh Assembly Government spent around £1.2 million on utilities for its administrative estate in 2005-06.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Gwariodd Llywodraeth Cynulliad Cymru tua £1.2 miliwn ar y cyfleustodau ar gyfer ei hystâd weinyddol yn 2005-06.

Mentrau Cyllid Preifat (Canol De Cymru) Private Finance Initiative Schemes (South Wales Central)

Q11 David Melding: Will the Minister make a statement on the use of private finance initiative schemes in South Wales Central? OAQ0509(FIN)

C11 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cynlluniau mentrau cyllid preifat yng Nghanol De Cymru? OAQ0509(FIN)

Sue Essex: We are using the private finance initiative to take forward one local government PFI scheme. There is also one hospital, one project for hospital staff residences and the Bute avenue and Callaghan square scheme.

Sue Essex: Yr ydym yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i hyrwyddo cynllun PFI sydd gan lywodraeth leol. Mae hefyd un ysbyty, un prosiect ar gyfer llety i staff ysbytai a chynllun rhodfa Bute a sgwâr Callaghan.

Plant Mewn Angen Children in Need

Q12 Gwenda Thomas: What representations has the Minister received from her

C12 Gwenda Thomas: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn gan ei chyd-

Ministerial colleagues regarding additional funding for children in need in Wales? OAQ0533(FIN)

Weinidogion ynghylch cyllid ychwanegol ar gyfer plant mewn angen yng Nghymru? OAQ0533(FIN)

Sue Essex: I have regular dialogue with my ministerial colleagues on financial matters.

Sue Essex: Yr wyf yn cael sgysiau rheolaidd gyda fy nghyd-Weinidogion ynghylch materion ariannol.

Y Portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio The Social Justice and Regeneration Portfolio

Q13 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the budget provision for the social justice and regeneration portfolio? OAQ0525(FIN)

C13 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddarperir ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio? OAQ0525(FIN)

Sue Essex: The budget allocation for the social justice and regeneration portfolio will rise from £592 million in 2006-07 to £635 million in 2008-09. That represents an increase of 12 per cent between 2005-06 and 2008-09.

Sue Essex: Bydd y gyllideb a ddyrennir ar gyfer y portffolio cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn cynyddu o £592 miliwn yn 2006-07 i £635 miliwn yn 2008-09. Mae hynny'n golygu cynnydd o 12 y cant rhwng 2005-06 a 2008-09.

Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat Private Finance Initiative Schemes

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on the use of private finance initiative schemes in Wales? OAQ0508(FIN)

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio cynlluniau mentrau cyllid preifat yng Nghymru? OAQ0508(FIN)

Sue Essex: We are using the private finance initiative to take forward 11 local government PFI projects. There are also three hospitals and a number of minor schemes undertaken by NHS trusts, the Bute avenue and Callaghan square project and the A55 dual carriageway across Anglesey.

Sue Essex: Yr ydym yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i hyrwyddo 11 o brosiectau PFI sydd gan lywodraeth leol. Mae hefyd dri ysbyty a nifer o fân gynlluniau sydd gan ymddiriedolaethau'r GIG, prosiect rhodfa Bute a sgwâr Callaghan a ffordd ddeuol yr A55 ar draws sir Fôn.

Uno'r Cyrff Cenedlaethol a Noddir gan y Cynulliad The Assembly Sponsored Public Body Mergers

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the financial implications of the ASPB mergers on the overall Assembly budget? OAQ0524(FIN)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau ariannol uno'r CCNC i gyllideb gyffredinol y Cynulliad? OAQ0524(FIN)

Sue Essex: The impact of the ASPB mergers has been to increase the Assembly's central administration main expenditure group in order to reflect the increased size of the new organisation. In 2006-07, the central administration MEG will be £309 million.

Sue Essex: Yr effaith a gafwyd o uno'r CCNC oedd cynyddu prif grŵp gwariant gweinyddiaeth ganolog y Cynulliad er mwyn adlewyrchu'r cynnydd ym maint y sefydliad newydd. Yn 2006-07, £309 miliwn fydd prif grŵp gwariant yr weinyddiaeth ganolog.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Gwaredu Gwastraff Peryglus
The Disposal of Hazardous Waste

Q14 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the disposal of hazardous waste? OAQ0714(EPC)

C14 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waredu gwastraff peryglus? OAQ0714(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): The hazardous waste regulations, which came into effect on 16 July 2005, place greater controls on the treatment and disposal of hazardous waste and also ban the co-disposal of hazardous and non-hazardous wastes.

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones): Mae'r rheoliadau gwastraff peryglus a ddaeth i rym ar 16 Gorffennaf 2005 yn rhoi mwy o reolaethau ar drin a gwaredu gwastraff peryglus a hefyd yn gwahardd cydwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus.

Tir Mynydd

C15 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Tir Mynydd? OAQ0722(EPC) [W]

Q15 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on the future of Tir Mynydd? OAQ0722(EPC) [W]

Carwyn Jones: Bydd penderfyniad ar drefniadau ar gyfer Tir Mynydd o dan gynllun datblygu gwledig Cymru 2007-13 yn cael ei wneud wedi i'r dadansoddiad gael ei gwblhau o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad diweddar.

Carwyn Jones: A decision on arrangements for Tir Mynydd under the rural development plan for Wales 2007-13 will be made on completion of the ongoing analysis of the responses received to the recent consultation exercise.